# <u>Yr Arallfyd</u>

**Gan Mari Izzard**



**SCENE 1 - EXT - WOODLAND**

**FX: IN A LARGE WOODLAND, WE HEAR FOOTSTEPS FROM 2 PAIRS OF WALKING BOOTS. THROUGH OUT KEVIN'S SPIEL, BUDDUG NODS IN AGREEMENT WHERE NECESSARY.**

**KEVIN** Okay so, fel wedais yn dy cyfweliad am y swydd - mewn nutshell, gwaith fi fel Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau o fewn Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion Defra yw i cynnal a hyrwyddo statws iechyd planhigion uchel yng Nghymru. A thrwy hynny gyfrannu at strategaeth gyffredinol o ddiogelu statws iechyd anifeiliaid a phlanhigion.

Cyflawnir y nodau trwy wahardd, cyfyngu neu ddileu plâu planhigion cwarantîn, rheoleiddio plâu planhigion eraill i sicrhau deunydd plannu o ansawdd uchel, a hwyluso masnach trwy ddarparu gwasanaethau ardystio iechyd planhigion. Strategaeth ni yw "ddarparu lle gwell i fyw" trwy eithrio, dileu a chyfyngu ar blâu a chlefydau cwarantin a hysbysu neu hyfforddi'r cyhoedd, rhanddeiliaid, y llywodraeth a chyrff anllywodraethol mewn bioddiogelwch planhigion. Bydd archwiliadau ar gynnyrch ffres mewn perthynas â safonau marchnata hefyd yn cael eu cynnal yn ychwanegol at y rheolaethau Iechyd Planhigion/

Oh! 'Na aderyn anarferol nagyw e?! Ma'n anferth! Albatross neu beth odd hwna?!

**BUDDUG** Albatross ond realli yn agos at y mor…so dwi ddim yn meddwl -

**KEVIN** Ah ie, ti'n gywir! Cadw at y planhigion Kev!

**FX THEY BOTH LAUGH**

**FX THE GIANT BIRD CRIES**

*BEAT*

**KEVIN** Huh…sai di gweld un o rheini o'r blaen…Anyway…O'n i ishe ddod a ti mas fan hyn ar dy ddiwrnod gyntaf Buddug, achos ma lle ma di bod yn fatha haven bach i mi am dros 20 mlynedd. Yn enwedig pan ma pethau di wir cicio bant, yn ystod foot & mouth a covid 'chi mod…ma llefydd fel hyn yn bwerus. Sdim rhaid i ti feddwl yn rhy galed, gei di anghofio just am tipyn. A ffordd neis o fatha 'easing you in' cyn ugh pasio'r baton draw i ti…

**BUDDUG** Diolch.

**KEVIN** Da ni'n bwriadu gweithredu patrwm sifft 4 diwrnod ar 4 diwrnod i ffwrdd ond dwi'm yn siwr pan deiff hwnna mewn i effaith...ond wnai cadw bysedd fi ti creoesi i ti bydd e'n fuan! Wnai hefyd fynd trwy dy holl cyfrifoldebau di yn yr swyddfa ond just cadw lygaid allan am unrhywbeth sy'n edrych yn allan o le am nawr.

**BUDDUG** Iawn. Got it!

**KEVIN** So, os da ti gwr neu plant neu…?

**BUDDUG** Na.

**KEVIN** Oh, pam lai? Ti'n digon prydferth!

**BUDDUG** Dwi'n hoyw. Enw cariad fi di Mia.

*BEAT*

**KEVIN** Oh reit. Na ni te. Ma 'na caffi actually just rownd y gornel. Ma nhw'n neud matcha latte bloody gorgeous - allai temptio ti gyda un?

**BUDDUG** Ma hynnyn swnio'n lyfli actually!

**KEVIN** Iawn te, byddai nol mewn chwinciad!

**<u>FX: BUDDUG CONTINUES TO WALK ON. HER PHONE RINGS.</u>**

**BUDDUG** *(answering)* Heia, Mia gwranda…dwi'n realli sorry cariad ond mae'n rhaid i mi rhoi flaenoriaethu i fy niwrnod cyntaf...so os fedrai just…
Mhmmm

Mhmmmmm. Yup…dwi'n deall! Ond -

Mia! Plis! Da ni di trafod hwn sawl gwaith nawr. Ti'n gwybod dwi ddim yn barod i rhoi fe gyd dros y insta!
Mia, na aros eiliad-

**<u>FX: MIA HANGS UP ON BUDDUG</u>**

**BUDDUG** Damia.

**FX: WE HEAR BIRD NOISES AND GENERAL WOODLAND NOISE. SUDDENLY THERE'S A HIGH PITCHED NOISE.**

**BUDDUG** Beth odd hynny? Kev, ti'n iawn?

**FX: THE HIGH PITCHED NOISE REPEATS BUT SLIGHTLY LOUDER**

**BUDDUG** Hello?

**FX: SWOOPING NOISE OF WINGS AND THE HIGH PITCHED NOISE IS DIRECTLY OVER BUDDUG'S HEAD NOW**

**BUDDUG** Oh na

**FX: BUDDUG STARTS RUNNING**

**BUDDUG** Oh god, ma'n dilyn fi! Angen cyddio!!

**FX: FLAPPING OF WINGS NOISE AND THE HIGH PITCHED NOISE TURNS INTO SOMETHING MORE FEROCIOUS.**

**BUDDUG** Y goeden, mae 'na twll, os wnai dringo mewn i'r twll fallai bydd e'n meddwl dwi 'di diflannu.

**FX: THE MONSTER GETS EXCEEDINGLY CLOSE**

**BUDDUG** Nawr neu byth Buddug!

**FX: BUDDUG JUMPS INTO A HOLE IN THE TREE AND BANGS HER HEAD ON IT.**

**BUDDUG** AW!

**FX: THE MONSTER CRIES THAT HE CAN'T GET TO BUDDUG. FLAPS THEIR WINGS, SMELLS AT THE TREE TRUNK AND THEN GIVES UP AND FLIES AWAY**

**BUDDUG** Fy mhen, Christ. Nai just orwedd lawr a chau fy llygaid am funud.

**<u>FX: THE WORD 'FUNUD' ECHOES AND CARRIES US INTO A SOUNDSCAPE</u>**

**<u>SCENE 2 - EXT - MAGICAL WOODLAND</u>**

**<u>ATMOS: ECHOEY HARP MUSIC PLAYS AMONGST WOODLAND SOUNDS.</u>**

**BUDDUG** *(echoey/from inside the tree)* Be yn y byd - …telyn? Faint mor galed nes i bwrw fy mhen?!

**<u>FX: A VOICE GIGGLES FROM THE DISTANCE</u>**

**MABON** Gweld, wedes i fod hi ddim di marw! So c'mon, tala fi!

**<u>FX: A BIRD CHIRPS BACK AT THEM IN RESPONSE</u>**

**MABON** Ha! Ti'n gweud hynny pob tro, a rhyw ddydd wnai actually enill dy cyntaf-anedig. Tyrd!

**<u>FX: MABON AND CELYN THE BIRDS WINGS FLY OVER. MABON BANGS ON THE TREE THAT BUDDUG IS HIDING IN</u>**

**MABON** Cnoc, cnoc Arallfyd! Amser codi!

**BUDDUG** *(echoey/from inside the tree)* Arall-fyd?

**MABON** Tyrd allan! Fedrwch chi ddim aros mewn fana am byth!

**<u>FX: BUDDUG CRAWLS OUT OF THE WHOLE IN THE TREE</u>**

**MABON** Wow. Ti mor…boring

**BUDDUG** Boring?!

**MABON** Wel y bod diwethaf nath croesi'r tiroedd…o'n nhw lot fwy na 'ti efo pedwar coes!

**BUDDUG** O'n nhw'n…centaur?

**MABON** Kind of…fatha hanner Hippo, hanner person ond heb wyneb? Byse ti'n gweud hynny Celyn?

**FX: CELYN THE BIRD MAKES A NOISE AS IF TO AGREE**

**MABON** Oh ye, anghofiais am y drool gwenwynig!

**BUDDUG** Wow, wel sori am eich siomi…

*BEAT*

**MABON** Oh! Mor sorri, enw fi di Mabon, dwi'n corlun!

**BUDDUG** Cor-beth?

**MABON** Chi mod? Creadur tylwyth teg sy'n byw ar bwys dŵr?

**BUDDUG** Ah sprite!

**MABON** Huh…hynny'n swnio fatha diod….anyway, a dyma Celyn! Ma hi'n jayglas!

**BUDDUG** Ah! Blue Jay! *(to self)* Ma Cymraeg mor funny weithiau…

**FX: CELYN MAKES A NOISE TO GREET BUDDUG**

**BUDDUG** Wel helo i ti 'fyd!

**MABON** Ma'r ddwy ohonyn ni'n crwydor fyd ma, fel arfer just yn achosi direidi…ond just ishe cal sport da 'ni!

**FX: CELYN MAKES A NOISE**

**MABON** *(agreeing)* Na, so ni'n ddrwg! Da ni just yn-

**FX: A LOUD BOOMING NOISE**

**BUDDUG** Beth odd hwnna?

**MABON** Oh dim byd dwi'n siwr.

**<u>FX: THE LOUD BOOMING NOISE GETS LOUDER</u>**

**BUDDUG** Ti'n siwr?

**MABON** Hollol

**<u>FX: THE LOUD BOOMING NOISE GETS LOUDER AGAIN</u>**

**BUDDUG** Mae'n swnio petai mae'n dod yn agosa?

**MABON** Okay falle bydd angen t'im bach o panic

**BUDDUG** Beth?!

**<u>FX: THE LOUD BOOMING NOISE GETS LOUDER AGAIN</u>**

**MABON** Okay. Da ni angen rhedeg nawr. Dilyna fi.

**<u>FX: THEY ALL START RUNNING</u>**

**BUDDUG** Beth ydy'n ni'n rhedeg o?

**MABON** Anghenfil sy'n bwyta dy enid. Da ni'n alw'r peth y Galar Corff…

**BUDDUG** Hmm..Y Galar Corff…

**MABON** Chi' mod eitha rhagweladwy os wyt ti'n gofyn i fi ond be ti'n mynd i neud, siarad 'r peth?!

**BUDDUG** Ye. Wel pam ddim?

**MABON** Collest ti'r ddarn lle wedais fod e'n bwyta dy enaid di?

**BUDDUG** Ti di gweld e'n neud e? Falle bod e just ishe siarad-

**MABON** Beth yw e da menywod fel ti, efo unrhywbeth sy bach yn unhinged yn trial achub y bloody peth? Mae'n anghenfil wyllt sy'n bwyta eneidiau. Na gyd ti angen gwybod. Trust me.

**BUDDUG** Okay sorry…

**MABON** Gloi! Tua'r dringo'r Salices ar bwys y llyn!

**<u>FX: MABON'S WINGS CARRY THEM AWAY SHARPLY</u>**

**BUDDUG** Salices?! Oh god…beth odd hwnna!! WILLOW! Y willow na! Okay! Gennai syniad! *(casting a spell)* Willow nawr, bydd yn cawr!

**<u>FX: MAGIC SFX FOLLOWED BY THE SOUND OF THE WILLOW TREE GROWING RAPIDLY</u>**

**MABON** Blinkin 'eck ma'r goeden yn massif!

**MABON** Dere - gloi!

**<u>SCENE 3 - EXT - UP A GIANT WILLOW NEAR A LAKE</u>**

**<u>FX: MABON HELPS BUDDUG TO CLIMB UP. MABON SLIPS, ALMOST FALLING INTO THE LAKE BESIDES THEM. SHE FALLS INTO BUDDUGS ARMS</u>**

**MABON** Dwi hefo ti - paid poeni!

**BUDDUG** Diolch. Dwi byth di bod yn dringwr dda! A hebddo ti, fyddwn i definetly just di cwpo yn y llyn 'na neu just rhoid fyny/

**MABON** Ond nige hwnna di pwynt cael o unrhyw perthynas? I helpu lle fedre di neu lle ma twll mewn galluoedd rhywun…da ni sy gallu, yn camu mewn i ymgodi? Neu odi hwnna ddim ddeddf y byd dynol ?

**BUDDUG** Chi mod… dwi'n meddwl odd e ar rhyw bwynt…ond weithiau ma pethau yn mynd mor gymleth, ma'n anodd cadw golwg clir ar beth sydd hawdd yn erbyn beth sy'n iawn.

**<u>FX: THEY CONTINUE TO CLIMB TO THE TOP OF A TALL WILLOW TREE NEXT TO A LAKE</u>**

**MABON** Dyle ni fod yn saf lan fan hyn…

**BUDDUG** Pa fath o anghenfil yw e…?

**MABON** Anodd i ddisgrifio really…mae'n cymrud y siap o'r peth sy'n eich dychryn chi'r fwyaf. So i fi mae'n edrych fel fersiwn o fi, ond ar fy ngwely angau. Ond peidiwch â chael dy twyllo, mae'n gweithio'n galed i denu chi mewn ac yn bwydo ar dy enaid. Dwi di gweld e'n digwydd. So fe'n bert o gwbwl…

**BUDDUG** Reit…ond ma'n swnio fatha…aderyn neu…deinosor falle?

**MABON** Ie ffyrdd arferol e fatha Pterosaurs-thingy 'ma.

**BUDDUG** Os ffordd i cael nhw i gadael chi fod?

**MABON** Sai di gweld e…ond ma pobol yn gweud os ydych chi'n rhoid mewn i eich ofn dyfnaf, ma'ch dewrer yn rhoi nhw off yn gyfan gwbwl…

*BEAT*

Ma'n swnio fel hollol cach i fi ond pwy a wyr!

**BUDDUG** Reit…sai'n siwr beth hyd yn oed fydd ofn dyfnaf fi/

**<u>FX: BUDDUG'S PHONE RINGS</u>**

**BUDDUG** Sut ma ffon fi'n canu fan hyn?

**<u>FX: BUDDUG ANSWERS THE PHONE</u>**

**<u>FX: MIA SPEAKS DOWN THE PHONE AT BUDDUG</u>**

**BUDDUG** Heia Mi…

**<u>FX: MIA GETS MORE AND MORE AGGRAVATED AT NOT BEING ABLE TO HEAR BUDDUG</u>**

**BUDDUG** Drycha just ishe gweld byddai yn hwyr nol heno. Dwi'n gwybod hwn di'r trydydd tro i mi neud hwn ond…Dwi yn deall fod e'n bwysig i cwrdd a dy rhieni ond Mia, mi byddai yna ond just bach yn - Mia, MIA! Os nad wyt ti am adael i mi siarad wnai just ddim dod o gwbwl/

**<u>FX: MIA HANGS UP</u>**

**FX: BUDDUG EXHALES**

**MABON** O nhw’n swnion grac…

**BUDDUG** Ma’n gymleth ond ie. Dwi’n siwr fod hi’n grac efo fi. Da ni di fod yn mynd allan nawr am fel tri, pedwar mis falle? A ma hi yn BIG ar y socials ‘gyd a really agos i rhieni hi. A dwi just ddim. Byth wedi bod. A ma hi wedi bod yn rhoi pwysau arna i, i neud rhyw fath o soft-launch o hi. Ond i fod yn honest, dwi just ddim ishe i’r byd, na teulu fi gwybod business fi. Ma perthynas ni mor gwerthfawr i fi a dwi ddim ishe unrhywbeth i ei stwffio hynny fyny.

**MABON** Be di socials…?

**BUDDUG** Fatha, papur newydd sydd ar ffon fi, ugh y peth nath canu yn gynharach…

**MABON** Be di papiiir new-ugh-dd…?

**BUDDUG** Ugh - sut fasa ti’n rhannu newyddion?

**MABON** Wel, da chi’n gofyn i'r deyrnas ffyngau i rannu e trwy ei iaith drydanol nhw a ma nhw'n gweiddi y newyddion ar draws yr holl goedwig i gyd! Mae mond yn cael ei defnyddio ar gyfer y achlysuron fwyaf llawen, fel priodasau neu wahoddiadau pen-blwydd!

**BUDDUG** So dychmyga, ma dy cariad newydd di ishe i ti rhannu efo’r deyrnas ffyngau i rhannu efo pawb yn y goedwig fod chi mewn perthynas newydd….

**MABON** Iawn…Bach yn weird tydi?

**BUDDUG** Yn union!

**MABON** Ond ydy e’n bwysig i hi?

**BUDDUG** Ma’n debyg

**MABON** Ti’n fodlon cyfaddawd ar y peth?

*BEAT*

**BUDDUG** Dwi just- dyw e ddim petai dwi ddim ishe cyfaddawd…ond

**MABON** Well ma'n swnio petai ti ddim…

**BUDDUG** Huh…falle bo fi ddim…ti'n meddwl bo hynny'n hunanol o fi?

**MABON** Well os odd e'n bwysig i ti fod dy bartner di yn ddangos i'r byd fod ti'n caru nhw mewn ffordd specific, fasa ti ishe i nhw neud e i ti?

**BUDDUG** Dwi'n gweld dy pwynt di…Ond ma beth ma hi'n gofyn i fi neud, mae just…dwi ofn bydde nhw ddim lico hi neu ddim yn cefnogol…

**MABON** Ma hynny'n WILD byddech teulu chi yn anfodlon i chi fod gyda'r person sy'n neud chi'n hapus

**BUDDUG** Ye…

**<u>FX: THE MONSTER NOISE IS SO LOUD IT RICOCHETS THROUGH THE TREES</u>**
**BUDDUG & MABON** Oh shit/Oh na! Ect.

**MABON** DRINGA!

**<u>FX: THEY START CLIMBING EVEN HIGHER</u>**

**BUDDUG** GLOI!

**<u>FX: THE MONSTER NOISE GETS CLOSER</u>**

**MABON** Ma'n dal fyny!

**BUDDUG** Wel dringan glyflymach!

**<u>FX: THE MONSTER NOISE GETS CLOSER AGAIN</u>**

**MABON** Sdim ffordd allan Buddug…mae'n dal fyny yn rhy gloi. Ma'n rhaid i ti wynebu'r peth!

**BUDDUG** Ond/

**MABON** Hwn di’r unig ffordd!

**<u>FX: THE MONSTER NOISE IS RIGHT BEHIND THEM</u>**

**MABON** NAWR!

**<u>FX: THE MONSTER ROAR’S RIGHT IN BUDDUG’S FACE</u>**

**BUDDUG** DRYCHA! Dwi ddim yn mynd i newid fy meddwl i. So hwn yn ‘phase’. Dwi’n caru Mia - efo’n holl calon. Ag os nad a yw hynny'n cyd-fynd efo’ch syniad chi o fy nyfodo, neu fy swydd, neu lle da ni’n fyw - wel gesia beth, dyfodol a bywyd fi yw e!/

**<u>FX: THE MONSTER NOISE CRACKLE NOISE CONTINUES OVER IT’S FOLLOWING DIALOUGUE</u>**

**KEVIN/MONSTER** Rwyt ti’n ffwl Buddug, ti’n hollol diwerth! Dwyt ti ddim yn ddim yn ffitio i mewn! Neu di byth fod y ferch mae eich rhieni ishe i ti fod! A ti’n gwybod neu dy teulu farnu ti am y ‘phase’ yma, odi hwn werth cael dy alltudio just am HI/

**BUDDUG** ENW HI DI MIA! A dwi ishe gwario weddill fy dyddiau efo’r person yma sy wir yn neud fi yr i'r hapusaf dwi erioed wedi bod! A dwi’n fodlon neud fy hunain y fwyaf agored dwi erioed wedi bod, i HI! Ag os taw hwn di’r diwedd, wel so be it! O leiaf bues i farw yn datgan fy nghariad, yn ddiymddiheuriad a LOUD AS HELL i Mia!

**<u>FX: THE MONSTER NOISE CRACKLES, GIVES ONE LAST SCREAM</u>**

**<u>FX: THE GIRLS INHALE IN FEAR, AS IF IT’S THEIR LAST BREATH</u>**

*SILENCE*

**<u>SCENE 4 - EXT - WOODLAND</u>**

**<u>FX: IN A LARGE WOODLAND</u>**

**BUDDUG** Aww…*(pain noises)* faint mor galed wnes i daro fy mhen?!

**<u>FX: THE SOUND OF SMALL WINGS LAND NEAR BUDDUG</u>**

**BUDDUG** Celyn…?

**<u>FX: THE BIRD TWEETS AT BUDDUG</u>**

**BUDDUG** Dwi'n iawn paid poeni Celyn fach. Byddai'n fine, poen yn fy mhen a popeth. Dwi'n gwybod beth sydd angen nawr. A dwi'n credu bo fi'n barod.

**<u>FX: BUDDUG STRUGGLING GETTING UP FROM THE GROUND</u>**

**<u>FX: THE BIRD TWEETS AT BUDDUG AGAIN</u>**

**BUDDUG** Na, diolch i chi; Mabon a Celyn. Newch chi byth gwybod faint ma'r diwrnod hwn wedi'i olygu i mi.

**<u>FX: BUDDUG WALKS AWAY</u>**

**<u>FX: THE BIRD FLIES AWAY</u>**

**<u>SCENE 5 - EXT - WOODLAND</u>**

**KEVIN** Ah Buddug, o'n i'n wonderan lle est di! Ma'ch flat white ti di dechrau mynd yn oer, sori! Ond dyma ti!

**BUDDUG** Paid becso! Fatha iced flat white erbyn erbyn nawr hah!

**KEVIN** Ti'n okay? Ti'n dal dy ben di?

**BUDDUG** Oh ie hollol fine, nath rhywbeth just cwmpo a bwrw fi allan o'r goedwig dwi'n meddwl.

**KEVIN** Byswm yn millionaire pe bawn yn cael fy nhalu bob tro nath hynny'n digwydd i mi. Ti'n siwr ti'n okay though? Dim concussion neu dim byd?

**BUDDUG** Na, na, hollol fine!

**KEVIN** Reit, awn ni mlaen te?

**BUDDUG** Sori, gai just un munud? Dwi angen hala text yn realli gloi.

**KEVIN** Dim problem, just dala fyny ar y llwybr pan wyt ti'n barod.
**<u>FX: KEVIN STARTS WALKING AWAY</u>**

**<u>FX: ON BUDDUGS PHONE SHE PRESSES THE BUTTON TO VOICE NOTE MIA</u>**

**BUDDUG** Heia Mia, sori nes i colli ti'n gynharach ond dwi just ishe gweud bo fi'n caru ti a misso ti. A fi'n meddwl bydd e'n neis i ti dod draw ar y weekend i falle cwrdd a rhieni fi? Fi'n realli sorri bo fi wedi bod yn llusgo fy sodlau rhyw faint ar yr holl 'soft launch' o ei'n perthynas ni ond dwi di sylweddoli falle odd da fi fwy o ansicrwydd na o'n i'n rhannu efo ti a fi'n meddwl odd hwnna bach yn anheg i ti…i fod yn gweud rhywbeth i ti a fod yn actio yn ffordd gwbwl wahanol pan da ni ar wahan…dwi'n sorri basically. A fasa'i lyfio os neud di gweud ie…a fedrwn ni wynebu'r canlynidau efo'n gilydd. Acho efo ti wrth fy ochr i, dwi'n teimlo fedrai neud unrhywbeth.

**<u>FX: BUDDUG PRESSES SEND</u>**

**BUDDUG** Gosh, voice note 3 munud o hyd…ma'n mynd i feddwl dwi'n mental…

**<u>FX: BUDDUG WALKS QUICKLY AWAY</u>**

**<u>FX: CELYN CALLS OUT</u>**

**<u>END</u>**